YSGOL MORGAN LLWYD

Ym mhob llafur y mae elw




# Swydd Pennaeth
# Pecyn Ymgeisio 2024

Llawn Amser - Parhaol

L27 - L33 (£90,980 i £105,390)

I ddechrau diwedd mis Ebrill 2025 neu cyn gynted a phosibl

# Llythyr i'r Ymgeiswyr oddi wrth Gadeirydd y Corff Llywodraethol

Annwyl Ymgeisydd

**SWYDD PENNAETH: Ysgol Morgan Llwyd**

Rydym yn falch iawn eich bod wedi gofyn am ragor o wybodaeth am y penodiad allweddol yma yn Ysgol Morgan Llwyd.

Mae'r Corff Llywodraethol yn frwd dros addysg cyfrwng Cymraeg ac yn awyddus i'r ysgol barhau ar ei thaith gwelliant. Mae'r cynnydd sydd wedi digwydd dros y blynyddoedd diwethaf yn destun balchder i ni gyd, fel nodwyd gan Estyn yn ein arolwg diweddaraf.:

*Mae'r Uwch Arweinyddiaeth, uwch reolwyr a staff Ysgol Morgan Llwyd yn rhoi blaenoriaeth amlwg i gefnogi lles holl gymuned yr ysgol. Gyda'i gilydd, maent yn meithrin perthynas glòs a chynhaliol â'r disgyblion ac mae hyn yn llwyddo i greu awyrgylch deuluol a gofalgar*.' Estyn Hydref 2022

Rydym yn chwilio am berson ymroddgar, brwdfrydig ac uchelgeisiol sydd wedi datblygu record o lwyddiant ar lefel ysgol gyfan. Dylai'r ymgeisydd llwyddiannus arddangos y gallu i weithio'n effeithiol fel aelod o dîm, croesawu cael ei herio a herio eraill a gallu adnabod yr elfennau a'r gweithdrefnau hynny sydd yn cynnal a chodi safonau ar draws bob agwedd o fywyd ysgol. Yn ogystal mae'r gallu i gyfathrebu'n effeithiol gydag amrywiaeth o gynulleidfaoedd yn y Gymraeg a'r Saesneg yn agwedd hanfodol o'r swydd.

Mawr obeithiwn y byddwch yn gwneud cais am y swydd i ymuno gyda ni yn ein hawydd i ddarparu addysg cyfrwng Cymraeg o'r radd flaenaf i bobol ifanc Wrecsam.

Yn gywir
**Mr Huw Robertson**
*Cadeirydd y Llywodraethwyr*

# Gwybodaeth am yr Ysgol

Ysgol uwchradd gyfrwng Cymraeg yw Ysgol Morgan Llwyd wedi'i lleoli yn ninas Wrecsam ac sy'n gwasanaethu dalgylch eang Sir Wrecsam. Daw ein disgyblion o'r ddinas ei hun, y pentrefi cyfagos ac o ardal wledig Dyffryn Ceiriog. Ysgol Morgan Llwyd yw unig ysgol uwchradd Gymraeg y Sir ac un o'r ddwy ysgol yn unig sydd â Chweched Dosbarth. Ymfalchïwn yn ein traddodiad o lwyddiant academaidd ein disgyblion a'u llwyddiannau ymhob rhan o fywyd allgyrsiol yr ysgol.

Agorwyd yr ysgol yn gyntaf yn 1963 ar gyfer llond llaw o ddisgyblion. Bellach mae dros 850 o ddisgyblion yn yr ysgol gyda 15% o ddisgyblion yn gymwys am PYD. Bydd oddeutu 30% o'n disgyblion yn parhau i astudio yn y chweched.

Mae 5 aelod ar yr uwch dim rheoli presennol, y Pennaeth, dau Ddirprwy Bennaeth a dau Bennaeth Cynorthwyol. Mae 63 athro a 91 aelod o staff yn gyfan gwbl yn gweithio yn Ysgol Morgan Llwyd.

Rydym yn ysgol gynhwysol ac yn angerddol dros sicrhau ein bod yn rhoi pob cyfle y gallwn i'n disgyblion i lwyddo. Mae ffocws cadarn wedi ei roi dros y 5 mlynedd diwethaf yn sicrhau fod y gefnogaeth a roddwyd i'n disgyblion yn gynhwysfawr, yn addas ac yn effeithiol. Braf iawn oedd derbyn clod gan Estyn am ein gwaith gyda'r Hwb Bugeiliol a'r Hwb Dysgu yn ystod ein harolwg diweddar iawn.

[Adroddiad Estyn Ysgol Morgan Llwyd]

Am ragor o wybodaeth am yr ysgol ewch i:

www.ysgolmorganllwyd.cymru




Ysgol Morgan Llwyd
Ym mhob llafur y mae elw

# Neges gan ein Disgyblion

Diolch am ddangos diddordeb mewn bod yn Bennaeth yn ein hysgol.
Ysgol Morgan Llwyd yw'r unig ysgol Gymraeg yn y sir, felly mae'r disgyblion yn dod o gefndiroedd eang boed yn drefol neu wledig ac rydym yn ymfalchio yn hyn.
Y nodweddion hoffwn ni fel disgyblion gael mewn Pennaeth yw eu bod yn:

- weledol o amgylch yr ysgol
- barod i ddod i'n hadnabod ni fel disgyblion ac fel unigolion cyfathrebu'n gyfforddus a rhwydd
- meddu ar synnwyr digrifwch gan fwynhau sgwrsio gyda disgyblion
- fodlon gwrando ac ystyried safbwynt disgyblion
- gadarn ond yn deg
- fodlon i barhau i gefnogi gwaith yr Hwb Dysgu a'r Hwb Bugeiliol gan ein bod yn gwerthfawrogi'r adnoddau yma
- fodlon ymdrochi eu hunain i fywyd yr ysgol
- fodlon ymdrin â phroblemau sy'n ymwneud â disgyblaeth yn hyderus, bersonol ac yn effeithlon.
- cydnabod ymdrechion, perfformiad a chynnydd addysgiadol disgyblion o bob gallu.
- cydnabod ymdrechion disgyblion mewn gweithgareddau allgyrsiol
- falch o'r iaith Gymraeg ac yn gweithredu i hybu'r iaith ar lafar yn yr ysgol.
- fodlon dod i adnabod a gwerthfawrogi ardal Wrecsam

Edrychwn ymlaen at dderbyn eich cais.



# Lle i fyw a Gweithio

Mae Bwrdeistref Sirol Wrecsam, sydd wedi'i lleoli yng Nogledd Ddwyrain Cymru, yn falch iawn o'i threftadaeth Gymraeg ac yn dathlu ei hunaniaeth ddiwylliannol. Ei chanolbwynt yw dinas Wrecsam – dinas fwyaf Gogledd Cymru – sy'n gorwedd yn Nyffryn Dyfrdwy rhwng mynyddoedd Cymru a gwastadoedd Swydd Gaer. Mae'n lleoliad sydd wir yn cynnig y gorau o'r ddau fyd.







## Yr hen a'r newydd

Mae dinas Wrecsam wedi bod yn ganolfan farchnad ers y cyfnod canoloesol, yn bell cyn iddi ddod i'r amlwg yn hwyr yn y ddeunawfed ganrif yn sgil y Chwyldro Diwydiannol. Mae Wrecsam wedi llwyddo i gadw awyrgylch hanesyddol a chael budd hefyd o ganolfan siopa fodern ddi-draffig, a chanolfan o fri i'r celfyddydau, diwylliant a marchnadoedd, Tŷ Pawb a agorodd ym mis Ebrill 2018. Mae'r ganolfan hon yn ychwanegu at ein harlwy dreftadaeth gan gynnwys amgueddfa'r Fwrdeistref Sirol. Rydym yn falch o'n Safle Treftadaeth y Byd UNESCO – Traphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte – sy'n denu miloedd o ymwelwyr o bob cwr o'r byd bob blwyddyn. Yn ogystal â dau eiddo i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol a thri o saith rhyfeddod Cymru.

Mae gan Wrecsam enw da hefyd am gynnal digwyddiadau ar raddfa fawr, o gemau Cwpan y Byd Cynghrair Rygbi i gyngherddau pop awyr agored. Mae gan Wrecsam brifysgol, amgueddfa a chyfleusterau chwaraeon gwych – mae'n lle sy'n edrych i'r dyfodol.

# Dinas a Chefn Gwlad

Gall Wrecsam ddarparu'r lleoliad perffaith i ba bynnag ffordd o fyw sy'n apelio atoch. Ar y naill llaw, mae digon o gefn gwlad i'w archwilio. Mae'r Fwrdeistref Sirol yn gartref i Warchodfa Natur Genedlaethol, Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol ac 11 parc gwledig. Mae tirlun Gogledd Ddwyrain Cymru yn ddeniadol iawn ac rydych chi o fewn tua ugain munud i heddwch a thawelwch bryniau Cymru.

Ar y llaw arall, mewn llai nag awr, gallwch gyrraedd tair dinas fyrlymus arall – Caer, Manceinion a Lerpwl – sydd fel Wrecsam, yn cynnig amrywiaeth ryngwladol o ddiwylliant, bywyd nos, siopau a chyfleusterau. Mae Wrecsam yn ganolfan fasnachol fywiog gydag un o Stadau Diwydiannol mwyaf Ewrop yn gartref i enwau mawr fel JCB, Kellogg's, Hoya. Gyda mynediad hwylus i'r rhwydwaith traffyrdd, nid ydym yn bell o sawl maes awyr a phorthladd, felly mae teithio i rannau eraill o'r DU neu'n bellach yn hawdd hefyd.




Ysgol Morgan Llwyd
Ym mhob llafur y mae elw

# Swydd Ddisgrifiad

## Diben y Swydd

- Arwain unig ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg sir Wrecsam gan ysgogi, cefnogi, herio a datblygu ei staff;
- Cydweithio gyda'r Llywodraethwyr i ddatblygu strategaethau ar gyfer yr ysgol a'r gymuned er mwyn sicrhau addysgu a dysgu effeithiol drwy'r ysgol gyfan;
- Rheoli'r ysgol yn effeithiol ac effeithlon er budd y disgyblion a staff;
- Codi safonau er mwyn sicrhau fod pob disgybl yn cyrraedd eu llawn botensial.

## Prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau

**1. Cyfeiriad a datblygiad strategol yr Ysgol**

- Datblygu gweledigaeth strategol yr ysgol mewn ymgynghoriad â'r corff llywodraethol, staff a rhieni
- Cynnal, adolygu a diweddaru nodau ac amcanion yr ysgol a gweithredu polisïau ar gyfer eu cyflwyno
- Hyrwyddo'r ethos o welliant parhaus a chodi cyflawniadau dysgwyr, yng nghyd-destun polisi derbyn agored ac ymrwymiad o fynediad llawn at arholiadau cyhoeddus
- Gweithio gyda'r tîm Arweinyddiaeth wrth arwain a chefnogi gwelliant a datblygiad ysgol gyfan
- Sicrhau gofal a lles pob disgybl, yn gorfforol, yn emosiynol ac yn academaidd gan alluogi pob disgybl i gyflawni eu llawn botensial
- Annog hunan ddisgyblaeth, ystyriaeth tuag at awdurdod a pharch tuag at eraill ymysg y disgyblion ac felly sicrhau safonau o ymddygiad sy'n cefnogi'r safonau angenrheidiol ar gyfer addysgu a dysgu
- Sicrhau'r ddarpariaeth o ysgol ac amgylchedd ddiogel, sydd wedi ei gynnal a'i gadw'n dda ac yn atyniadol

**2. Addysgu a Dysgu**

- Arwain, cydlynu ac ysgogi staff tuag at y lefel uchaf o berfformiad a bod yn gyfrifol am weithrediad y trefniadau rheoli perfformiad
- Sicrhau bod profiad addysgu eang, cytbwys ac addas yn cael ei baratoi a'i gyflwyno, sy'n ymgorffori gofynion y Cwricwlwm i Gymru ac yn cynnwys trosglwyddo effeithiol o'r cyfnod cynradd, cynnydd drwy Gyfnod Allweddol 3 a gweithredu'r Llwybr Dysgu 14-19
- Cydweithio gyda'r llywodraethwyr, y tîm arweinyddiaeth a staff er mwyn sicrhau a chynnal addysgu a dysgu effeithiol drwy'r ysgol gyfan

- Monitro a gwerthuso ansawdd yr addysgu a safonau cyflawniadau'r dysgwyr trwy ddefnyddio meincnodi, olrhain a thargedau er mwyn gwella
- Cynnal a datblygu arferion ystafell ddosbarth sy'n gyson ardderchog
- Sicrhau fod pob dysgwr yn derbyn cefnogaeth ac arweiniad trwy eu taith addysgol
- Gweithredu gweithdrefnau a strategaethau sy'n sicrhau safonau uchel o ymddygiad trwy'r ysgol gyfan
- Datblygu cysylltiadau â rhieni, ysgolion eraill, sefydliadau addysgol a'r gymuned ehangach gan gynnwys byd busnes a diwydiant er mwyn gwella prosesau addysgu a dysgu a datblygiad personol pob disgybl

**3. Atebolrwydd**

- I fod yn atebol am effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd cynyddol yr ysgol i'r llywodraethwyr ac eraill, gan gynnwys dysgwyr, rhieni, staff a'r cymunedau y mae'r ysgol yn eu gwasanaethu
- Darparu gwybodaeth, adroddiadau a chyngor gwrthrychol a chefnogi'r llywodraethwyr er mwyn eu galluogi i gwrdd â'u cyfrifoldebau yn ymwneud a diogelu, dysgu ac addysgu effeithiol a safon well o gyflawniad
- Cyfrannu at ddatblygu sefydliad lle mae llywodraethwyr a staff yn cydnabod mai nhw sy'n gyfrifol am lwyddiant yr ysgol
- Monitro ac adolygu'r ystod, ansawdd, nifer a'r defnydd o adnoddau er mwyn gwella ansawdd ac effeithlonrwydd yr addysgu
- Dyfeisio a rheoli gweithdrefnau cynllunio, hunanwerthuso, adolygu a chyllido mewn partneriaeth â'r Corff Llywodraethol.
- Pennu blaenoriaethau ar gyfer gwariant a monitro effeithiolrwydd gwario yn unol â'r blaenoriaethau sydd wedi ei phennu yng nghynllun datblygu'r ysgol a rheoliadau ariannol yr awdurdod lleol.
- Rhoi gwybodaeth a chyngor i'r Corff Llywodraethu fel bo modd iddo ysgwyddo'i gyfrifoldebau a gweithredu prosesau atebolrwydd ar draws yr ysgol.
- Creu ethos lle mae'r staff i gyd yn cydnabod eu bod nhw'n atebol.
- Rhoi cyfrif am gyflawniad yr ysgol i asiantaethau mewnol ac allanol drwy ddadansoddi data cyflawniad ac adroddiadau priodol a defnyddio'r dadansoddiad yn sail i waith cynllunio ar bob lefel.

**4. Cryfhau'r Gymuned**

- Cynnal a datblygu cysylltiadau cadarnhaol gyda rhieni, y gymuned leol a busnes
- Hyrwyddo a datblygu cysylltiadau pellach gydag ysgolion bwydo, yr Awdurdod Lleol ac asiantaethau eraill sy'n cefnogi lles a chynnydd addysgol dysgwyr
- Datblygu strategaethau i annog rhieni a gwarcheidwaid/cynhalwyr i gefnogi dysgu eu plant.
- Ymgymryd â dyletswyddau proffesiynol Prifathro, yn unol â gofynion Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol.

# Manylion am yr Unigolyn

**ADRAN 1 – Cymwysterau a gofynion**

| Meini Prawf | Hanfodol | Dymunol | Modd Asesu: |
|---|---|---|---|
| 1.1 Statws athro cymwysedig | * | | FfG |
| 1.2 Pennaeth presennol neu gymhwyster CPCP | * | | FfG |
| 1.3 Profiad addysgu llwyddiannus sylweddol | * | | FfG / G |
| 1.4 Profiad uwch arweinyddiaeth llwyddiannus gyda thystiolaeth o godi safonau | * | | FfG / C / G |
| 1.5 Profiad eang mewn nifer o ysgolion a/neu rolau amrywiol | | * | FfG / G |
| 1.6 Profiad blaenorol llwyddiannus fel Pennaeth | | * | FfG / G |

**ADRAN 2 - Profiad a Gwybodaeth Broffesiynol**

| Meini Prawf | Hanfodol | Dymunol | Modd Asesu: |
|---|---|---|---|
| 2.1 Tystiolaeth o reolaeth strategol, ariannol ac adnoddol effeithiol | * | | FfG / G |
| 2.2 Tystiolaeth o gyfathrebu cryf i godi safonau yn y swydd bresennol | * | | FfG / G |
| 2.3 Gwybodaeth dda am Fframwaith Arolygu Estyn, neu gyfwerth. | * | | FfG / C |
| 2.4 Profiad fel arolygwr Estyn neu gyfwerth | | * | FfG / C |
| 2.5 Profiad o arwain ysgol drwy arolwg diweddar llwyddiannus | | * | FfG / C |
| 2.6 Dealltwriaeth glir o ddatblygiad staff a rôl Rheoli Perfformiad o ran codi safonau. | * | | FfG / C |
| 2.7 Dealltwriaeth dda o'r cwricwlwm uwchradd yng Nghymru a'i ddatblygiad i'r dyfodol | * | | FfG / C |

## ADRAN 3 –Doniau, nodweddion a sgiliau personol

| Meini Prawf | Hanfodol | Dymunol | Modd Asesu: |
|---|---|---|---|
| 3.1 Gallu cynllunio'n strategol i ddarparu gweledigaeth, ethos a blaenoriaethau'r ysgol | * | | FfG / C |
| 3.2 Gallu arwain, dylanwadu a rheoli newid | * | | FfG / C |
| 3.3 Gallu cyfathrebu, ysbrydoli a chymell staff, disgyblion a rheini gan ddefnyddio sgiliau rhyngbersonol ardderchog | * | | FfG / C / G |
| 3.4 Rhagweithiol, arloesol a hyblyg gyda lefelau uchel o wytnwch ac uniondeb. | * | | FfG / C / G |
| 3.5 Gallu myfyrio ar arferion a rheoli datblygiad personol eich hunan. | * | | FfG / C |
| 3.6 Ymrwymiad i hyrwyddo ethos yr iaith Gymraeg a'i diwylliant. | * | | FfG / C |

## ADRAN 4 - Arweinyddiaeth a Rheoli

| Meini Prawf | Hanfodol | Dymunol | Modd Asesu: |
|---|---|---|---|
| 4.1 Model rôl proffil uchel gyda phresenoldeb amlwg sy'n hawlio parch | * | | FfG / C |
| 4.2 Profiad o gydweithio gyda Chorff Llywodraethu | * | | FfG / C |
| 4.3 Profiad helaeth o wella ymddygiad a phresenoldeb disgyblion | * | | FfG / C |
| 4.4 Gwybodaeth fanwl am ganllawiau diogelu | * | | FfG / C |
| 4.5 Profiad o, ac ymrwymiad i ddatblygu gweledigaeth ar gyfer gweithio gyda'r gymuned ehangach | * | | FfG / C / G |
| 4.6 Ymrwymiad i weithio mewn partneriaeth gyda'r awdurdod lleol a'r gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol | * | | FfG / C |
| 4.7 Profiad o weithio gydag ysgolion eraill ac ymrwymiad i gydweithio | * | | FfG / C |
| 4.8 Profiad sylweddol o ddefnyddio cynlluniau gwella'r ysgol i gael effaith sylweddol ar safonau | * | | FfG / C |

## ADRAN 5 - Arwain Dysgu ac Addysgu

| Meini Prawf | Hanfodol | Dymunol | Modd Asesu: |
|---|---|---|---|
| 5.1 Gallu datblygu a chynnal perthnasau gwaith cryf | * | | FfG / C |
| 5.2 Gallu monitro, gwerthuso a gwella perfformiad gan gynnal cymhelliant staff | * | | FfG / C |
| 5.3 Profiad o ddatblygu ac arwain mentrau cwricwlwm. | * | | FfG / C |
| 5.4 Ymrwymiad i addysg cynhwysol sy'n canolbwyntio ar y disgybl | * | | FfG / C |
| 5.5 Profiad o hyrwyddo rôl rheini yn addysg eu plant | * | | FfG / C |

## ADRAN 6 - Sicrhau Atebolrwydd

| Meini Prawf | Hanfodol | Dymunol | Modd Asesu: |
|---|---|---|---|
| 6.1 Profiad o reoli adolygiadau mewnol ac allanol trylwyr | * | | FfG / C |
| 6.2 Profiad o sicrhau canlyniadau gwell drwy weithio gyda Chyrff Llywodraethu | * | | FfG / C |
| 6.3 Profiad o weithio'n llwyddiannus gyda gweithiwr gwella ysgolion proffesiynol neu unigolyn tebyg i godi safonau | * | | FfG / C |

FfG:Ffurflen Gais / Llythyr Cais

C: Cyfweliad

G: Geirda